



**mwldan**  
Aberteifi / Cardigan

# Beth Sydd Ymlaen What's On

Ebrill - Tachwedd 2026  
April - November 2026

# Shwmae | Hello!

## Annwyl gyfeillion,

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein rhaglen ddiweddaraf i chi sy'n ein tywys o'r gwanwyn i'r haf.

Fel bob amser, mae gennym raglen sy'n llawn dop o ffilmiau, digwyddiadau byw a digwyddiadau sinema. Rydym yn arbennig o gyffrous i gyflwyno dwy ffilm newydd wych o Gymru – *Madfabulous* sy'n dathlu arallodd, ac o'r cyfarwyddwr Marc Evans daw *Effi O Blaenau*, sy'n "state of the nation howl" (Screen), ffilm wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru sydd wedi derbyn adolygiadau 4 a 5 seren.

Mae gennym hefyd ddetholiad anhygoel o ffilmiau mawr, o *Michael*, *The Devil Wears Prada 2*, a *Toy Story 5*, i benodau newydd yn y masnachfreintiau *Minions* a *Star Wars* a'r hir-ddisgwyliedig *The Odyssey* gan Christopher Nolan.

Estynnwn groeso i Bassekou Kouyate ac Amy Sacko o Mali ym mis Mai, ac rydym yn falch iawn o fod wedi cynhyrchu eu taith gyfan yn cwmpasu 16 o ddyddiadau yn y DU, gyda dyddiad yn y Mwldan wedi'i gynnwys. Yn ogystal, byddwn yn croesawu enwogion y byd cerddoriaeth Lindsfarne i'r Mwldan, ond brysiwch gan mai ychydig iawn o docynnau sydd ar ôl.

Wrth i'r haf agosáu, gobeithiwn y dewch o hyd i ddigon o resymau i ymweld â ni cyn hir, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Mwldan.

## Dear friends,

We're delighted to bring you our latest programme which takes us from spring into summer.

As always, we have a packed programme of cinema, live events and event cinema with plenty on offer. We're particularly excited to be bringing you two great new films from Wales – the riotous celebration of otherness that is *Madfabulous*, and from director Marc Evans comes *Effi O Blaenau*, a "state of the nation howl" (Screen) set in North Wales and lauded with 4- and 5-star reviews.

We've also got an amazing line-up of big movie releases, from *Michael*, *The Devil Wears Prada 2*, and *Toy Story 5*, to new chapters in the *Minions* and *Star Wars* franchises and Christopher Nolan's long-awaited *The Odyssey*.

From Mali, we welcome Bassekou Kouyate & Amy Sacko in May, and we're very excited to have produced their entire 16-date UK tour in which the Mwldan date is included. We're also welcoming music legends Lindsfarne to the Mwldan, but hurry as there are very few tickets left.

As summer approaches, we hope you find plenty of reasons to visit us soon, and we look forward to welcoming you at Mwldan.

Cofion cynnes,

Dilwyn Davies,  
**Prif Weitheredwr, Mwldan**  
Chief Executive, Mwldan

## Cynnwys / Contents

- 03 Digwyddiadau Fyw / Live events
- 16 Darllodiadau / Broadcasts
- 26 Sinema / Cinema
- 47 CFFTM / TMFS
- 49 Dosbarthiadau / Classes
- 53 Gwybodaeth / Information
- 55 Dyddiadur / Diary

Delweddd Clawr / Cover Image:  
*Minions + Monsters* t/p 42

# Digwyddiadau byw

## Live events

Yn ystod y gwanwyn a'r haf eleni, mae gennym amrywiaeth gyffrous o gerddoriaeth fyw, cynyrchiadau theatr gwych ac ychydig o hanes lleol.

Gyda'r dyddiau'n ymestyn a heulwen o'n blaenau, rydym hefyd yn edrych ymlaen at dymor newydd o berfformiadau theatr awyr agored gan Illyria, a gynhelir yng ngerddi hardd Castell Aberteifi.

Gweler digwyddiadau unigol am fanylion tocynnau rhatach. Gweler mwldan.co.uk am fanylion pellach ac i archebu tocynnau.

Mae pris yr holl docynnau yn cynnwys TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10% (sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n berthnasol (Mae ffioedd archebu wedi'u cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).

This spring and summer, we have an exciting roster of live music, brilliant theatre productions and a dose of local history.

With longer, brighter days ahead we're also looking forward to a new season of outdoor theatre performances from Illyria, taking place in the beautiful grounds of Cardigan Castle.

See individual events for concessionary price details and visit our website [mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk) for further details and to book.

All ticket prices include VAT and are subject to a 10% booking fee (which also includes VAT) where applicable (Booking fees are limited to £3 maximum per cart).



Llun / Image: Illyria 2022

### Illyria - The Pirates of Penzance

Gweler tudalen 10 am ragor o wybodaeth | See page 10 for more information



**Glen Johnson**  
**Aberteifi Oes Fictoria**  
**- Canllaw Teithiwr**  
**Amser /Victorian**  
**Cardigan - A Time**  
**Traveller's Guide**  
Dydd Sadwrn 18 Ebrill  
Saturday 18 April  
2.00pm /£7

---

Camwch yn ôl mewn amser yn y Mwldan gyda'r Dyn Hanes, Glen Johnson, wrth iddo gyflwyno canllaw i Aberteifi fel yr oedd yn oes Fictoria. Pa leoedd oedd yno i ymweld â nhw? Gyda phwy allech chi gwrrdd? Pa ddiwydiannau oedd yno? Ble fyddai teithiwr yn aros? Mae'r sgwrs hanes unigryw hon yn tywys yr ymwelydd o amgylch Aberteifi, gan archwilio'r golygfeydd a rhoi'r math o wybodaeth nad yw'r rhan fwyaf o lyfrau hanes yn ei dweud wrthyhch! Gyda nifer fawr o ddelweddau Fictoriaidd prin a hiwmor nodweddiadol Glen ei hun, dylai hon fod yn daith hynod ddiddorol.

Step back in time at Mwldan with the History Man, Glen Johnson, as he presents a guide to Cardigan as it was in the Victorian era. What places were there to visit? Who might you meet? What industries were there? Where would a traveller stay? This history talk with a difference guides the visitor around Cardigan, exploring the sights and providing the sort of information that most of the history books don't tell you! Illustrated with a large number of rarely-seen Victorian images and garnished with Glen's own brand of humour, this should be a fascinating journey.



**Emily Davis -**  
**Blodwen Rocks The Boat**  
Nos Fercher 22 Ebrill  
Wednesday 22 April  
8.00pm /£15 (£14)

---

Mae'r sioe sydd wedi'i chreu a'i pherfformio gan Emily Davis - cyn-ddisgybl Ysgol y Preseli a drodd yn artist cabaret ac sydd wedi cyflwyno ei chymeriad nodweddiadol, Blodwen, i lwyfannau ledled y DU - yn awr lawen, ddychanol, ac ysbrydoledig o ddireidi cerddorol.

Yn dilyn rhediad o berfformiadau llwyddiannus yn y Frinj Caeredin (★★★★ Three Weeks, Dark Chat), mae *Blodwen Rocks The Boat* yn berffaith i unrhyw un sydd erioed wedi rhoi'r gorau i swydd, wedi cwestiynu eu dewisiadau - neu sydd ddim ond angen chwerthin yn braf. Gyda cherddoriaeth gan Andy Campbell Smith, mae hon yn sioe i'r breuddwydwy, y gweithredwy, ac unrhyw un sy'n barod i fentro.

Created and performed by Emily Davis - a former Ysgol y Preseli pupil turned cabaret artist who's taken her signature character, Blodwen, to stages across the UK - the show is a joyful, satirical, and uplifting hour of musical mischief.

Following a hit run at the Edinburgh Fringe (★★★★ Three Weeks, Dark Chat), *Blodwen Rocks The Boat* is perfect for anyone who's ever quit a job, questioned their choices - or just needed a good laugh. With music by Andy Campbell Smith, this is a show for the dreamers, the doers, and anyone ready to jump ship.

**Age Guidance: 12+, contains mild swearing**  
**Canllaw oed: 12+, yn cynnwys rhegi ysgafn**

20  
26

**ABERTEIFI  
LIVE**

**MAE ABERTEIFI LIVE YN  
GYDWEITHREDIAD SYDD YN  
HYRWYDDO CERDDORIAETH FYW AR  
DRAWS ABERTEIFI DRWY'R FLWYDDYN.**

**ABERTEIFI LIVE IS A COLLECTIVE  
PROMOTING LIVE MUSIC YEAR-ROUND  
ACROSS CARDIGAN.**

**24/04 PONS AELIUS**

Theatr Byd Bach / Small World Theatre, 7.30yh/pm £15

**01/05 LANSIAD ALBWM DEWIN ALBUM LAUNCH**

+ Cefnogaeth / + Support

Y Seler / The Cellar, 8 yh/pm (7:30 yh/pm drysau/doors)

£12 (£15 wrth y drws /on the door)

**05/06 CERYSHAFANA**

Theatr Byd Bach / Small World Theatre, 7.30yh/pm £17

**11/07 YNYS + Cefnogaeth / + Support**

Y Seler / The Cellar, 8 yh/pm (7:30 yh/pm drysau/doors)

£12 (£15 wrth y drws /on the door)

**04/09 TAI HAF HEB DRIGOLYN + Cefnogaeth / + Support**

Y Seler / The Cellar, 8 yh/pm (7:30 yh/pm drysau/doors)

£12 (£15 wrth y drws /on the door)

**10/10 DAFYDD OWAIN: YMARFER BYW**

Mwldan, 7.30yh/pm £17 (£15)

Manylion pellach / Details:

**ABERTEIFILIVE.CO.UK**



Small World  
Theatre



FFlach  
Cymuned



Theatr  
Gŵyl



## Hejira - Celebrating Joni Mitchell

Nos Wener 1 Mai

Friday 1 May

7.30pm / £23

Yn 2024, perfformiodd y band 7 darn, Hejira, sioe hudolus i gynulleidfa lawn yma yn y Mwldan. Rydym yn gyffrous i'w croesawu'n ôl ym mis Mai eleni am sioe gyffrous arall sy'n wirioneddol yn dal barddoniaeth, angerdd a harddwch campweithiau Joni Mitchell. Ers iddynt ffurfio ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, mae'r band wedi mynd o nerth i nerth, gyda sioeau'n gwerthu allan, y gynulleidfa ar ei thraed mewn cymeradwyaeth, cyfanswm o dros 150K o ymweliadau â'u sianel YouTube a mwy na 700 o sylwadau brwdfrydig ac adolygiadau gan y gynulleidfa.

Disgwyliwch noson o ganeuon gwych o ôl-gatalog Mitchell, fel 'Amelia', 'Woodstock', 'A Case Of You', 'Song For Sharon', 'Edith And The Kingpin' a mwy!

In 2024, the 7-piece band Hejira performed a magical show to a packed out audience here at Mwldan. We're excited to welcome them back this May for another spine-tingling show that truly captures the poetry, passion and beauty of Joni Mitchell's masterpieces. Since their formation just over two years ago, the band has been a tremendous success, with sold out shows, standing ovations, a total of over 150K views on their YouTube channel and more than 700 enthusiastic comments and audience reviews.

Expect an evening of the great songs from Mitchell's back catalogue, such as 'Amelia', 'Woodstock', 'A Case Of You', 'Song For Sharon', 'Edith And The Kingpin' and more!



## Bassekou Kouyate + Amy Sacko

Nos Fawrth 12 Mai | Tuesday 12 May

7.30pm / £20 (£18)

O Mali, mae'r cerddor chwedlonol a meistr ngoni Bassekou Kouyate yn teithio'r DU am y tro cyntaf fel deuawd gyda'i wraig, y gantores griot uchel ei pharch a'r lleisydd eithriadol Amy Sacko, gan ddilyn rhyddhad *Djudjon, L'Oiseau de Garana* (2024), eu halbwm cyntaf i gyrraedd brig y siartiau gyda'i gilydd. Gan gysylltu'r gorffennol a'r presennol, bydd hwn yn gyfle unigryw, agos atoch ac anghyffredin i brofi perfformiad sy'n cyrraedd calon Mali - perfformiad personol iawn, mynegiannol, arddull siambr sy'n addo agosatrywydd prin rhwng artist a chynulleidfa, lle fydd pob nodyn a gair yn atseinio'n ddwfn.

From Mali, legendary musician and ngoni master Bassekou Kouyate tours the UK for the first time as a duo with his wife, the revered griot singer and exceptional vocalist Amy Sacko, following the release of *Djudjon, L'Oiseau de Garana* (2024), their first chart-topping album together. Connecting past and present, this will be a unique, intimate and extraordinary opportunity to experience a performance that reaches to the very heart of Mali – deeply personal, expressive, chamber-style that promises a rare closeness between artists and audience, a space where each note and lyric resonates deeply.

*'a genius and living proof that the blues comes from Mali'*  
- Taj Mahal on Bassekou Kouyate

*'the Tina Turner of Mali'* - MOJO on Amy Sacko

Cynhyrchiad y Mwldan  
A Mwldan Production





## Cwmni Pendraw DNA

Nos Fercher 10 Mehefin  
Wednesday 10 June  
7.30pm / £16 (£14)

Llundain yn ystod y 50au, mae Rosalind Franklin yn cyrraedd 'coridorau cysegredig' prifysgol. Yn ddawnus ac yn angerddol dros wyddoniaeth; dyma ferch gref mewn parth gwrywaidd. Mae hi'n ymuno â'r ras i ddatgelu strwythur DNA, un o bosau pwysicaf y ganrif. Mae cenfigen academiaidd ar waith yma ac, efallai, Gwobr Nobel yn y fantol.

Dyma stori ddetiectif wedi'i gosod yng nghanol hiliaeth a rhywiaeth y cyfnod. Clywch am gyfraniad Rosalind i un o ganfyddiadau gwyddonol pwysicaf ein hoes, rôl na dderbyniodd cydnabyddiaeth lawn amdano.

Gallwch ddisgwyl drama, gwrthdaro, cariad a cherddoriaeth fyw yn nwylo Cwmni Pendraw.

1950's London, Rosalind Franklin joins the 'hallowed corridors' of a university. Talented and passionate about science; Rosalind is a strong woman in a male preserve. She joins the race to reveal the structure of DNA, one of the century's most important puzzles, amid academic jealousies and a Nobel Prize up for grabs.

This detective story set in the racism and sexism of the period reveals Rosalind's role in one of the most important discoveries of our time, one for which she was not fully acknowledged.

Cwmni Pendraw will deliver drama, confrontation, love and live music.

**Perfformir yn yr iaith Gymraeg.**  
**This is a Welsh language production.**



## Lighthouse Theatre White Lies

Nos Fawrth 16 Mehefin  
Tuesday 16 June  
7.30pm / £16 (£15)

Mae Claire a Simon wedi bod yn briod ers blynnyddoedd. Mae mwy i fywyd na hwyaden a l'orange... Dyma Roger. Ffrind dychmygol i ddot ag ychydig o sbeis i'w perthynas....gyda chanlyniadau annisgwyl. Mae'r gomedi arsylwadol finog hon wedi'i hysgrifennu gan sgriptiwr gwobrwyedig *Dr. Who* sef Robert Shearman, ac mae'n delio â materion cyfoes sensitif, o hunaniaeth i unigrwydd mewn modd tosturiol, cefnogol a doniol.

Mae'r cwmni theatr a gyflwynodd i chi *Shirley Valentine*, *It's A Wonderful Life* a *Casablanca* yn rhoi eu stamp theatrig ar berlen fodern.

Claire and Simon have been married for years. There is more to life than duck a l'orange... Enter Roger. An imaginary friend to spice up their relationship.... with unexpected consequences. This razor-sharp observational comedy is written by award-winning *Dr. Who* script-writer Robert Shearman, and deals with sensitive contemporary issues from identity to loneliness in a compassionate, supportive and funny manner.

The theatre company which brought you *Shirley Valentine*, *It's A Wonderful Life* and *Casablanca* bring their theatrical style to a modern gem.

**Canllaw oed: 12+ | Age Guidance 12+**

**Ymunwch ag aelodau o gast a thim creadigol *White Lies* am sesiwn holi ac ateb cyn y sioe am 6.30yh yn y galeri.**  
**Join members of the cast and creative team of *White Lies* for a pre-show Q&A at 6.30pm in the gallery space.**



## Lindisfarne

Nos Fercher 24 Mehefin  
Wednesday 24 June  
7.30pm / £32

Mae arloeswyr enwog roc gwerin y 70au, Lindisfarne, nôl ar y brig gyda lein-yp o bum aelod sydd wedi bod yn y grŵp ers tro dan arweiniad yr aelod sylfaen gwreiddiol, Rod Clements, sy'n canu, chwarae mandolin, ffidil a gitâr sleid.

Gyda repertoire o ganeuon bythgofiadwy fel *Meet Me On The Corner*, *Fog On The Tyne*, *Lady Eleanor* a *Run For Home* ac enw da am berfformiadau byw heb eu hail, mae'r pŵer sydd gan Lindisfarne i ysgogi cynulleidfaoedd mewn gwyliau a chyngherddau yn parhau i fod yn aruthrol, ac mae'n sicr o gael y dorf ar ei thraed ac yn cydganu.

Legendary 70s folk-rock pioneers Lindisfarne return to form with a classic five-piece line up of long-time members fronted by original founder-member Rod Clements on vocals, mandolin, fiddle and slide guitar.

With a repertoire of unforgettable songs like *Meet Me On The Corner*, *Fog On The Tyne*, *Lady Eleanor* and *Run For Home* and a reputation for live performance second to none, Lindisfarne's power to galvanise festival and concert audiences remains undimmed and is guaranteed to get the crowd on its feet and singing along.

Theatr Awyr Agored / Outdoor Theatre

# ILLYRIA



CARDIGAN CASTLE  
CASTELL ABERTEIFI



Cyd-gynhyrchiad Mwldan / Castell Aberteifi  
A Mwldan /Cardigan Castle Co-production

Mae Mwldan a Chastell Aberteifi yn cyflwyno rhaglen o theatr awyr agored gan Illyria, y cyfan yng ngerddi syfrdanol Castell Aberteifi.

Mwldan and Cardigan Castle present a summer programme of open-air theatre from award winning theatre company Illyria in the stunning grounds of Cardigan Castle.

Mae'r prefformiadau i gyd yn cymryd lle yng Nghastell Aberteifi. Gweler [mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk) am wybodaeth bwysig ynglŷn a'r digwyddiadau hwn.

These performances take place at Cardigan Castle. See [mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk) for essential information about these events.



Castell Aberteifi / Cardigan Castle

**Illyria**

## **The Three Musketeers**

Nos Fercher 29 Gorffennaf

Wednesday 29 July

7.00pm (Drysau / Doors: 6.00pm)

£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Mae'r D'Artagnan ifanc yn awyddus tu hwnt i ymuno ag Athos, Porthos ac Aramis fel Mysgedwr elit Gwarchodlu'r Brenin. Er mwyn profi ei hun, mae'n mynd ar antur gyffrous i ddod o hyd i emwaith y Frenhines, adfer anrhydedd Ei Mawrhydi, goroesi cynllwynion y Cardinal Richelieu cyfrwys, a gwrthdaro gyda'r femme fatale fwyaf peryglus, Milady de Winter.

Rhamant! Cyffro! Cynllwyn! Llofruddiaeth! Mae gan glasur Dumas y cyfan!

Young D'Artagnan is desperate to join Athos, Porthos and Aramis as an elite Musketeer of the King's Guard. To prove himself he plunges headlong into a breathlessly thrilling adventure to retrieve the Queen's jewels, restore Her Majesty's honour, survive the machinations of scheming Cardinal Richelieu, and cross swords with the deadliest of femmes fatales Milady de Winter.

Romance! Swashbuckling! Intrigue! Dumas's classic has got the lot!

Castell Aberteifi / Cardigan Castle

**Illyria**

## **As You Like It**

Nos Fawrth 18 Awst

Tuesday 18 August

7.00pm (Drysau / Doors: 6.00pm)

£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Mae pedwar pâr o eneidiau hoff cyfûn yn cwrdd yng Nghoedwig Arden. Mae un pâr yn neidio'n syth i'r gwely. Mae pâr arall yn cael eu syfrdanu gan brydferthwch ei gilydd. Mae'r trydydd pâr yn poenydio ei gilydd. Mae'r pedwerydd pâr yn mynd ymhellach fyth, gan gymysgu eu rolau a'u hunaniaethau'n chwareus i'r fath raddau nes bod fflyrtio'n dod yn fwy o boen na phleser, ac mae Cariad ei hun yn cael ei wthio i'r eithafion - a thu hwnt.

Four pairs of soulmates meet in the Forest of Arden. One pair leap straight into bed. Another pair are dumbstruck by each other's beauty. The third pair torment each other. The fourth pair go further still, playfully blurring their roles and identities to such an extent that flirting becomes more pain than pleasure, and Love itself is pushed to the limit of endurance – and beyond.



Castell Aberteifi / Cardigan Castle

## Illyria

### The Pirates of Penzance

Nos Fawrth 25 Awst

Tuesday 25 August

7.00pm (Drysau / Doors: 6.00pm)

£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Rhaid i Frederick, a gafodd ei wneud yn brentis i Fôr-ladron pan oedd yn blentyn, weithio i Frenin y Môr-ladron tan ei ben-blwydd yn 21 oed. Ar ôl dysgu bod Frederick wedi'i eni mewn blwyddyn naid ar 29 Chwefror, mae Brenin y Môr-ladron yn mynd ati i wirio manylion y contract - ac yn sylweddoli mai dim ond pedwar pen-blwydd y mae e wedi'u cael. A fydd Frederick yn cael ei orfodi i wasanaethu'r môr-ladron nes ei fod yn 84 oed? Perfformir opereta fwyaf poblogaidd Gilbert a Sullivan gan gast o 6 actor/cantor.

Frederick, apprenticed to Pirates as a child, is indentured to the Pirate King until his 21st birthday. The Pirate King learns that Frederick was born in a leap year on 29th February, checks the contract's small print – and realises he has only had four birthdays. Will Frederick be forced to serve the pirates until he is 84? Gilbert and Sullivan's most popular operetta is performed by a 6-strong cast of actor/singers.



Castell Aberteifi / Cardigan Castle

## Illyria

### Pinocchio

Nos Fercher 26 Awst

Wednesday 26 August

6.00pm (Drysau / Doors: 5.00pm)

£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Mae Geppetto, gwneuthurwr teganau heb blant, yn gwneud pyped pren – heb sylweddoli pa anhrefn y mae ar fin ei ryddhau. Mae'r pyped yn hiraethu am antur ac yn rhedeg i ffwrdd, ond yn lle dod o hyd i gyffro, mae popeth sy'n ei ddenu'n cynnwys peryglon cudd. Mae'n dychwelyd adref gan obeithio cael ychydig o gydymdeimlad ond yn canfod bod ei drafferthion newydd ddechrau. Nid yw rhedeg i ffwrdd wedi gweithio; ni fydd dweud celwydd yn gweithio; rhaid iddo ddod yn fachgen go iawn er mwyn dod o hyd i'r teimlad o berthyn mae'n ei grefu.

Childless toymaker Geppetto makes a wooden puppet – little realising the chaos he is about to unleash. The puppet yearns for adventure and runs away, but instead of excitement only finds glorious attractions containing hidden dangers. He returns home hoping to be showered with sympathy and learns his tribulations are just beginning. Running away hasn't worked; lying won't work; he must become a real boy to achieve the belonging he craves.



**Edge Street Live presents**  
**Brian Bilston - How to Lay An**  
**Egg With A Horse Inside**

Nos Wener 25 Medi

Friday 25 September

7.30pm /£22 (£20)

Brian Bilston yw un o feirdd mwyaf poblogaidd y DU. Cyrhaeddodd ei nofel *Diary of a Somebody* y rhestr fer ar gyfer Gwobr Nofel Gyntaf Costa, ac mae hefyd wedi ysgrifennu casgliadau o farddoniaeth ar gyfer darllenwyr iau. Yn 2025 rhyddhaodd albwm o'i farddoniaeth wedi'i gosod i gerddoriaeth, *Sounds Made by Humans*, mewn cydweithrediad â The Catenary Wires.

Bydd Brian yn dychwelyd i'r llwyfan gyda'i lyfr diweddaraf, *How to Lay an Egg with a Horse Inside*. Byddwch yn barod am noson o gomedï a chwerthin, wrth iddo ein tywys drwy sut, pam a'r holl bethau sy'n gysylltiedig â darllen, ysgrifennu a mwynhau barddoniaeth bob dydd.

Brian Bilston is one of the UK's most popular poets. His novel *Diary of a Somebody* was shortlisted for the Costa First Novel Award, and he has also written collections of poetry for younger readers. In 2025 he released an album of his poetry set to music, *Sounds Made by Humans*, in collaboration with The Catenary Wires.

Brian returns to the stage with his latest book, *How to Lay an Egg with a Horse Inside*. Get ready for an evening of comedy and laughter, as he takes us through the hows, whys and whats of reading, writing and enjoying poetry every day.

**Canllaw oed: 14+ / Age Guidance: 14+**



## Rich Hall - Chin Music

Nos Wener 2 Hydref | Friday 2 October  
7.30pm / £18

Mae gan "Chin Music" ddau ystyr. Un yw malu awyr. Mae'r llall yn fath o dafliaid mewn pêl fas neu griced er mwyn dychryn y batiwr. Mae'r ddau yn disgrifio comedi Rich Hall. Malu awyr ond codi braw. Cryno, cyflym, egniol, ac yn hyfryd o fyrfyfy.

Os nad ydych chi erioed wedi'i weld, mae angen i chi frysio i lawr i'r Mwldan a bachu sedd gan nad yw byth yn siomi. Byth.

'Chin Music' has two meanings. One is idle talk. The other is a brushback throw in baseball or cricket to intimidate the batter. Both describe Rich Hall's comedy. Idle but intimidating. Sharp, quick, splenetic, and sublimely improvisational.

If you've never seen him, you need to hustle down to Mwldan and grab a seat because he never disappoints. Ever.

*'Vital and incredibly angry. Hilarious' – The Scotsman*

*'Blissfully funny' – The Guardian*

*'As close as it gets to a guaranteed good show'*  
- **Scotland on Sunday**

Canllaw oed: 14+ / Age Guidance: 14+



## Glen Johnson

### The Changing Face of Cardigan's Pendre

Dydd Sadwrn 3 Hydref  
Saturday 3 October  
2.00pm / £7

Mae Dyn Hanes Aberteifi, Glen Johnson (BEM), yn cynnig cipolwg ar Wyneb Newidiol Pendre Aberteifi ym mis Hydref eleni yn y Mwldan.

Gan ddefnyddio'r ffotograffau cyfareddol hyn, mae Glen yn olrhain hanes adeiladau'r stryd trwy eu newidiadau a'u defnyddiau amrywiol dros y 150 mlynedd diwethaf neu fwy. O dafarndai i gapeli, siopau a thai, ysgolion a charchar - dyma gyfle i weld stryd gyfarwydd mewn goleuni newydd a datgelu straeon cudd ein tref.

The History Man of Aberteifi, Glen Johnson (BEM), offers a look at the Changing Face of Cardigan's Pendre this October at Mwldan.

Using these captivating photographs, Glen traces the buildings of the street through their various changes and uses over the last 150 years or more. From pubs to chapels, shops and houses, schools and a prison - this is a chance to see a familiar street in a new light and uncover the hidden stories of our town.

# Dafydd Owain - Ymarfer Byw

Nos Sadwrn 10 Hydref | Saturday 10 October

7.30pm / £17 (£15)

Mae Dafydd Owain yn artist o Gaernarfon sydd yn prysur sefydlu ei hun fel un o leisiau cerddorol mwyaf cyffrous Cymru.

Rhyddhaodd ei albwm cyntaf fel artist solo yn 2023, gan ennill enwebiadau ar gyfer Y Wobr Gerddoriaeth Gymreig yn ogystal ag Albym Cymraeg y Flwyddyn. Fis Hydref 2025, daeth ei ail albwm, *Ymarfer Byw*, allan a bu iddi dderbyn clod aruthrol gyda nifer yn ei disgrifio fel un o'r albymys gorau yn 2025 yn ogystal â chael ei disgrifio fel "un o'r albymau pwysicaf i ddod allan o Gymru yn y degawd hwn" gan Nation.Cymru.

Mae *Ymarfer Byw (Yn Fyw)* yn berfformiad emosiynol ac ingol o albym diweddaraf Dafydd yn ei gyfanrwydd. Dyma berfformiad sydd wedi ei ddisgrifio gan gynulleidfaoedd fel un o'r perfformiadau mwyaf pwerus iddyn nhw ei weld ers blynnyddoedd lawer wrth i'r albym ddod yn fyw mewn dathliad pwerus o'n meddyliau tyfnaf.

Dafydd Owain is an artist from Caernarfon whose work has quickly established him as one of the most compelling voices in contemporary Welsh music.

He released his first album as a solo artist in 2023, earning nominations for both the Welsh Music Prize and Welsh-language Album of the Year. In October 2025, he followed with his second album, *Ymarfer Byw*, released to widespread critical acclaim. The record was heralded as one of the best albums of the year and described by Nation.Cymru as "one of the most important albums from Wales this decade."

*Ymarfer Byw (Live)* captures the emotionality of his latest release in a raw, immersive performance. Described by audiences as among the most powerful shows they had witnessed in years, it becomes alive in surges of feeling, and the intimacy of our deepest thoughts are celebrated.



**GORWELION  
HORIZONS**





## Ranagri

Nos Fercher 11 Tachwedd  
Wednesday 11 November  
7.30pm / £18

Band gwerin gwobrwyedig o Iwerddon a Lloegr yw Ranagri. Gyda chymysgedd unigryw o offerynnau sy'n cynnwys lleisiau, gitâr, baswci, fflwrtiau, chwibanau, telyn/telyn drydan, a bodhrán/drymiau, maen nhw'n creu sain sy'n hudolus ac yn fythgofiadwy.

Mae'r band wedi recordio pum albwm stiwdio hyd yn hyn, gyda'u halbwm diweddaraf, "TRADITION II," yn derbyn canmoliaeth gan y beirniaid ar ôl cael ei ryddhau ym mis Gorffennaf 2022. Fe gynhwysodd Folk Radio UK yr albwm ymhlith eu 10 albwm gorau yn 2022, gan gadarnhau statws y band fel un o'r bandiau gwerin mwyaf cyffrous ac arloesol yn y DU heddiw. Mae albymau blaenorol a dderbyniodd glod gan y beirniaid yn cynnwys, *Playing For Luck*, *Fort of the Hare*, a *The Great Irish Songbook* (gyda'r artist bop Tony Christie).

Ranagri is an award-winning folk band from Ireland and England. With a unique blend of instruments that includes voices, guitar, bouzouki, flutes, whistles, harp/ electric harp, and bodhrán/drums, they create a sound that is both mesmerising and unforgettable.

The band has recorded five studio albums to date, with their latest release, *Tradition II*, receiving critical acclaim upon its release. Folk Radio UK placed the album in their top 10 albums of 2022, cementing the band's status as one of the most exciting and innovative folk bands in the UK today.

Previous critically acclaimed albums include *Playing For Luck*, *Fort of the Hare*, and *The Great Irish Songbook* (with pop legend Tony Christie).



## 7 Steps - The Music of Miles Davis

Nos Wener 13 Tachwedd  
Friday 13 November  
7.30pm / £18 (£16)

Mae'r trwmpedwr Tomos Williams yn dod â'i fand o gerddorion gwych i Mwldan am y tro cyntaf i chwarae cerddoriaeth yr athrylith jazz Miles Davis. Bydd y band yn chwarae rhai o'r clasuron sy'n gysylltiedig â'r trwmpedwr: *So What*, *Joshua*, *All Blues* ond hefyd yn cynnwys rhai o'r caneuon llai adnabyddus o gatalog helaeth Miles fel *Masqualero* a *Fran Dance*.

Mae Tomos Williams yn llais blaenllaw ac unigryw yn sîn jazz Cymru. Wedi'i ddylanwadu'n fawr gan gerddoriaeth Miles, mae 7Steps yn brosiect naturiol i Tomos ei arwain.

Trumpeter Tomos Williams brings his band of brilliant musicians to Mwldan for the first time to play the music of jazz legend Miles Davis. 7Steps perform some of the classics associated with the great trumpeter; *So What*, *All Blues*, *Milestones* but also play some of the less well known songs from Miles' vast catalogue such as *Joshua*, *Masqualero* and *Teo*.

2026 is the centenary year of Miles Davis' birth, and 7Steps will perform the music of one of the towering figures of 20th Century music, with passion and vigour.

Tomos Williams – trwmped/trumpet, Joe Northwood – sacsoffon tenor/tenor sax, Dave Jones – piano, Paula Gardiner – bas/bass, Mark O'Connor – drymiau/drums

*'Williams guides the band, and he stalks the stage half-proud father and half-explorer in a new, dangerous, but familiar land. His horn is beautifully controlled, pulling soloists back to the root of the number, springboarding them off'*

– Wales Arts Review



## Simon Yates - My Mountain Life

Nos Sadwrn 14 Tachwedd  
Saturday 14 November  
7.30pm / £20

Ym mis Mehefin 1995, cafodd y mynyddwr Simon Yates ei hun mewn sefyllfa ofnadwy ym Mheriw. Roedd yn cael ei dynnu'n araf oddi ar wyneb y mynydd gan ei bartner anafedig, Joe Simpson, yn hongian ar y rhaff 50 metr islaw. Fe wnaeth ei benderfyniad i dorri'r rhaff achub bywydau'r ddau ohonynt yn y stori epig o oroesi a ddilynodd. Gyda chyhoeddi'r llyfr 'Touching The Void', a gafodd ei droi'n ffilm a drama lwyfan yn ddiweddarach, fe ddaeth y ddau ddringwr yn enwau cyfarwydd.

Mae'n ymuno â ni yn y Mwldan ym mis Tachwedd eleni, i adrodd y straeon hyn gyda ffraethineb, hiwmor sych a'u darlunio â delweddau a darnau fideo a gasglwyd ar ei anturiaethau dringo mawr.

In June 1985, mountaineer Simon Yates found himself in a desperately unenviable position in Peru. He was slowly being pulled off the mountain face by his injured partner, Joe Simpson, dangling on the rope 50 metres below. His decision to cut the rope saved both their lives in the epic tale of survival that followed. With the publication of the book *Touching The Void*, which later became a film and stage play, both climbers became household names.

He joins us this November at Mwldan, to tell these stories with wit, dry humour and illustrated with images and film footage collected on his great climbs.



## Ignacio Lopez - Nada

Nos Iau 19 Tachwedd  
Thursday 19 November  
8.00pm / £22

Dair blynedd ar ôl iddo wneud i ni chwerthin yn iach gyda'i sioe stand-yp *Nine IG Fails*, mae Ignacio Lopez yn dychwelyd i'r Mwldan gyda'i brosiect mwyaf uchelgeisiol a rhwysgfawr hyd yma efallai. *Nada* yw'r arbrawf comedi cyfareddol lle mae Allforyn Gorau Sbaen yn creu sioe stand-yp newydd sbon, hollol unigryw a hynod ddoniol o flaen eich llygaid, o ddim byd o gwbl! Gan gloddio i'w fagwraeth ddoniol, yn tyfu i fyny ym Mallorca a De Cymru, yn ogystal ag awgrymiadau gan y dorf, a phopeth y mae wedi'i ddysgu wrth berfformio comedi ers 2010, mae Ignacio yn creffthio stori gymhleth o ddirgelwch a chyffro yn llawn coegni, ffolineb a chwerthin enfawr.

Three years after he had us in stitches with his stand up show *Nine IG Fails*, Ignacio Lopez returns to Mwldan with perhaps his most ambitious and pretentious project yet. *Nada* is the captivating comedy experiment which sees Spain's Best Export create a brand new, completely unique and blisteringly funny stand up show right in front of your eyes, from absolutely nothing! Mining his hilarious upbringing, growing up in Mallorca and South Wales, as well as suggestions from the crowd, and everything he's learnt performing comedy since 2010, Ignacio crafts an intricate story of mystery and suspense packed with sarcasm, silliness and huge laughs.

★★★★

*'A crowd-pleasing act for sure. This observational comic has struck a more compelling path.'* - **The List**

Canllaw oed: 13+ , mae'r sioe hwn yn cynnwys iaith gref  
Age Guidance: 13+ , this show includes strong language

# Darllodiadau Broadcasts

**NT Live: The Playboy of  
the Western World** 12A AS LIVE

Gweler tudalen 25 am ragor o  
wybodaeth | See page 25 for  
more information



Darganfyddwch rai o gynyrchiadau theatr, opera, bale a cherddorol gorau'r byd gan gynhyrchwyr mwyaf blaenllaw'r byd. ONT Live i'r Bale a Opera Brenhinol, mae gennym gynnwys gwefreiddiol gan rai o'r enwau mwyaf, yma ar y sgrin yn Aberteifi.

Dyma amserau bras sy'n cynnwys seibiannau (oni nodir y wahanol). Gall tystysgrifiau newid. Edrychwn ar ein gwefan [mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk) am ddiweddiadau a rhagor o fanylion.

Mae pris yr holl docynnau yn cynnwys TAW ac yn amodol ar ffi archebu o 10% (sydd hefyd yn cynnwys TAW) lle bo'n berthnasol (Mae ffioedd archebu wedi'u cyfyngu i uchafswm o £3 y cart).

Discover some of the worlds finest theatre, opera, ballet and musical productions from the worlds leading companies. From NT Live to Royal Ballet & Opera, we have exhilarating content from some of the biggest names right here on screen in Cardigan.

Running times are approximate and include intervals (unless otherwise stated). Certificates are subject to change. Please check our website [mwldan.co.uk](http://mwldan.co.uk) for updates and further details.

All ticket prices include VAT and are subject to a 10% booking fee (which also includes VAT) where applicable (Booking fees are limited to £3 maximum per cart).



## National Theatre Live

### All My Sons 15 AS LIVE

Ebrill / April 16 – 7.00, 23 – 7.00,  
25 – 2.00, 30 – 2.00

Mai / May 7 – 7.00, 14 – 7.00

£16 (£15)

National  
Theatre  
Live

Mae Bryan Cranston (*Breaking Bad*) a Marianne Jean-Baptiste (*Hard Truths*) yn ymddangos mewn cynhyrchiad newydd pum seren, clodwiw o ddrama glasurol Arthur Miller, gan y cyfarwyddwr gweledigaethol Ivo Van Hove (*A View from the Bridge*). Un teulu, calon y freuddwyd Americanaidd. Pan mae amser rhyfel yn dod ag elw i ran Joe, mae'n dod am bris - caiff ei bartner ei gyhuddo o wneud bargeion gweithgynhyrchu troseddol, ac mae ei fab hynaf ar goll ar faes y gad. A fydd amser heddwch yn dod â thawelwch meddwl, neu a fydd yn wynebu canlyniadau ei weithredoedd? Wedi'i ffilmio'n fyw o'r West End, mae Paapa Essiedu (*I May Destroy You*), Tom Glynn-Carney (*House of the Dragon*), a Hayley Squires (*I, Daniel Blake*) hefyd yn ymddangos yn y ddrama ragweledol aflonyddgar hon.

Bryan Cranston (*Breaking Bad*) and Marianne Jean-Baptiste (*Hard Truths*) feature in a five-star, triumphantly acclaimed new production of Arthur Miller's classic play, from visionary director Ivo Van Hove (*A View from the Bridge*). One family, the heart of the American dream. When wartime delivers profits for Joe, it comes at a price when his partner is charged with criminal manufacturing deals, and his eldest son goes missing in action. Will peacetime bring peace of mind, or will he be confronted by the consequence of his actions? Filmed live from the West End, Paapa Essiedu (*I May Destroy You*), Tom Glynn-Carney (*House of the Dragon*), and Hayley Squires (*I, Daniel Blake*) also feature in this disturbingly prescient play.

Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance



**Exhibition On Screen**  
**Turner +**  
**Constable** PG  
Ebrill / April 19 – 2.00  
£13 (£12)

EOS EXHIBITION  
ON SCREEN

Roedd dau o beintwyr blaenaf Prydain, J.M.W. Turner a John Constable, hefyd yn gystadleuwr mawr.

Wedi'u geni o fewn blwyddyn i'w gilydd, defnyddiodd y ddau baentio tirluniau i adlewyrchu'r byd newidiol o'u cwmpas. Fe wnaeth machlud haul fflamlyd Turner a golygfeydd godidog o'i deithiau a darluniau delfrydol Constable o leoedd annwyl o'i gartref danio brwdfrydedd mawr yn y cyhoedd ar y pryd. Cymharodd beirniaid eu harddulliau gwahanol iawn fel gwrthdaro 'tân a dŵr'. Stori anhygoel artistiaid tirluniau gorau Prydain a'u cystadleuaeth ffyrnig, wedi'i chreu mewn cydweithrediad agos â Tate Britain i ddathlu 250 mlynedd ers eu geni.

Two of Britain's greatest painters, J.M.W. Turner and John Constable were also the greatest of rivals.

Born within a year of each other, both used landscape painting to reflect the changing world around them. Turner's blazing sunsets and sublime scenes from his travels and Constable's idealised depictions of beloved places from home whipped the public of the time into a frenzy of enthusiasm. Critics compared their starkly different styles to a clash of 'fire and water'. Marking 250 years since their births, this unmissable new documentary explores Turner and Constable's intertwined lives and legacies alongside the groundbreaking Tate exhibition.

**Mae hwn yn recordiad / This is a recording**



**Royal Ballet + Opera**  
**The Magic Flute** PG AS LIVE  
Ebrill / April 21 – 6.45, 26 – 2.00  
£18 (£17)

ROYAL  
BALLET &  
OPERA

Mae opera ffantastig Mozart yn disgleirio yng nghynhyrchiad hudolus David McVicar.

Mae'r Dywysoges Pamina wedi cael ei chipio. Mae ei mam, y Queen of the Night, yn rhoi'r dasg o achub ei merch i'r Tywysog ifanc Tamino. Ond pan mae Tamino a'i bartner cyfeillgar, Papageno, yn dechrau ar eu hantur, maen nhw'n dysgu'n gyflym, wrth edrych am gariad, nad yw unrhyw beth fel y mae'n ymddangos mewn gwirionedd. Gyda fflwi't hud yn eu tywys, maen nhw'n dod ar draws angenfilod, dihirod, a brawdoliaeth ddirgel o ddynion - ond mae cymorth, mae'n debyg, yn dod pan ydych chi'n ei ddisgwyl leiaf.

Mozart's fantastical opera glitters in David McVicar's enchanting production.

Princess Pamina has been captured. Her mother, the Queen of the Night, tasks the young Prince Tamino with her daughter's rescue. But when Tamino and his friendly sidekick, Papageno, embark on their adventure, they soon learn that when it comes to the quest for love, nothing is as it really seems. Guided by a magic flute, they encounter monsters, villains, and a mysterious brotherhood of men – but help, it turns out, comes when you least expect it.

**Bydd y sioe ar 21 Ebrill yn cael ei ffrydio'n fyw.**  
**Mae'r sioe ddilynol ar y 26 Ebrill yn recordiad.**

**The show on the 21 April will be streamed live.**  
**The subsequent show which takes place on 26 April is a recording.**



## Cinema Live Presents James Acaster - Cinemagoers Welcome 15

Ebrill / April 24 – 8.00

Mai / May 15 – 8.00

£16 (£15)

Mae'r digrifwr James Acaster yn rhyddhau ei egni heintus wrth iddo archwilio ei berthynas cariad/casineb gyda stand-yp – tra'n croesawu ychydig o heclo. Gyda'r ffilmio'n digwydd yn Truro, Duly'n a Northampton, cawn weld sut y datblygodd yr arbrawf hwn o flaen tair cynulleidfa wahanol iawn.

Mae James Acaster yn un o ddigrifwyr stand-yp mwyaf cyffrous a gwreiddiol y DU, gyda theithiau yn y DU sydd wedi gwerthu pob tocyn a rhaglenni arbennig ar Netflix (cyfres Repertoire), mae e wedi dod yn un o'r wynebau mwyaf adnabyddus ar sîn gomedi'r DU. Mae'n awdur llwyddiannus, yn actor (*Ghostbusters: Frozen Empire*) ac yn gyd-gyflwynydd y podlediad *Off Menu* hynod boblogaidd.

Comedian James Acaster unleashes his infectious energy as he explores his love/hate relationship with stand-up - while welcoming a heckle or two. Filmed in Truro, Dublin and Northampton, we see how this experiment panned out in front of three very different audiences.

James Acaster is one of the UK's most exciting and original stand up comedians, with sold out UK tours and specials on Netflix (Repertoire series), he has become one of the most well known faces on the UK comedy scene. He is a best selling author, actor (*Ghostbusters: Frozen Empire*) and a co-host of the hugely popular *Off Menu* podcast.

Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance



**Met Opera mewn cysylltiad a RBO /**  
**Met Opera in association with RBO**  
**Eugene Onegin** 12A AS LIVE

Mai / May 5 – 6.00

£18 (£17)



Yn dilyn ei début gyda'r cwmni yn 2024 yn *Madama Butterfly* gan Puccini, mae'r soprano Asmik Grigorian yn dychwelyd i'r Met fel Tatiana, yr arwres ifanc dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad, yn yr addasiad operatig brwd hwn o Pushkin. Unwaith eto, mae'r bariton Igor Golovatenko yn cyflwyno ei bortread o'r Onegin bonheddig, sy'n sylweddoli'n rhy hwyr ei fod yn hoff ohoni. Mae cynhyrchiad atgofus y Met, dan gyfarwyddyd yr enillydd Gwobr Tony, Deborah Warner, 'offers a beautifully detailed reading of... Tchaikovsky's lyrical romance' (The Telegraph).

Following her acclaimed 2024 company debut in Puccini's *Madama Butterfly*, soprano Asmik Grigorian returns to the Met as Tatiana, the lovestruck young heroine in this ardent operatic adaptation of Pushkin. Baritone Igor Golovatenko reprises his portrayal of the urbane Onegin, who realizes his affection for her all too late. The Met's evocative production, directed by Tony Award-winner Deborah Warner, 'offers a beautifully detailed reading of... Tchaikovsky's lyrical romance' (The Telegraph).

Bydd y sioe ar 5 Mai yn cael ei ffrydio'n fyw / The show on the 5 May will be streamed live



**Cinema Live Presents**  
**Paul Smith - Pablo Live** 18

Mai / May 8 – 8.00, 22 - 8.00

£16 (£15)

---

Gan un o ddigrifwyr stand-yp mwyaf feirol y DU, yn ei raglen ddébut arbennig, *Paul Smith: Pablo Live* yw'r sioe rydych chi i gyd wedi bod yn aros amdani. Wedi'i ffilmio'n fyw yn Nulyn, mae'n llawn comedi nodweddiadol Smith.

Gan gynnwys cymysgedd o'i ryngweithio profoclyd â'r gynulleidfa, ei hiwmor miniog a straeon hynod ddoniol am ei fywyd bob dydd, dyma Paul Smith yn ddi-flewyn-ar-dafod, ac ni fyddwch chi eisiau colli munud o'r profiad.

From one of the UK's most viral stand-up comedians, in his debut special, *Paul Smith: Pablo Live* is the show you've all been waiting for. Filmed live in Dublin, it's packed full of Smith's signature, unflinching, laugh out loud comedy.

Featuring a mix of his trademark audience roasting, razor-sharp wit and hilarious true stories of his everyday life, this is the full, unfiltered Paul Smith experience, and you won't want to miss a minute of it.

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance**



## Billie Eilish - Hit Me Hard + Soft 12A TBC

Mai / May 8–8.15, 9, 10 - 7.15, 23 - 6.45, 24 - 7.15, 25 - 27 - 6.45,  
29 - 31 - 6.45  
£15 (£10)

Wedi'i ffilmio yn ystod ei thaith fyd-eang a werthodd bob tocyn, mae Billie Eilish - Hit Me Hard And Soft yn dod â phrofiad cyngerdd newydd i'r sgrin fawr gan un o artistiaid enwocaf ei chenedlaeth.

Wedi'i chyfarwyddo gan enillwyr Gwobr yr Academi® James Cameron a Billie Eilish, nid recordiad o sioe lwyfan yn unig ydyw; mae'n ailwampiad llwyr i'r synhwyrau. Mae gweld Billie Eilish trwy lens obsesiynol Cameron, yn rhywbeth i edrych ymlaen ato.

Captured during her sold-out world tour, Billie Eilish - Hit Me Hard And Soft brings a new concert experience to the big screen from one of the most celebrated artists of her generation.

Directed by Academy Award® winners James Cameron and Billie Eilish, this isn't just a recording of a stage show; it's a promise of a total sensory overhaul. Seeing Billie Eilish through Cameron's obsessive, high-frame-rate promises to be an exciting prospect.

**Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw / This is a recording of a live performance**



## Liberator Film Productions **Funny Girl** PG

Mai / May 13 - 7.00, 16 – 3.45

Mehefin / June 3 – 7.00

£16 (£15)

Mae'r cynhyrchiad hwn, sydd wedi ennill clod gan y beirniaid, yn cynnwys Sheridan Smith "an unforgettable star turn" (The Times) a llu o ganeuon eiconig gan gynnwys 'People', 'I'm The Greatest Star' a 'Don't Rain On My Parade'. Dyma i chi lythyr serch at y theatr, mae'r sioe hon yn cynnwys y cyfan! Yn dilyn cyfres o berfformiadau a dorrodd record a gwerthu pob tocyn yn Menier Chocolate Factory ac yn West End Llundain, cafodd *Funny Girl* ei ffilmio gan Digital Theatre yn fyw yn y Palace Theatre Manceinion ar noson olaf ei thaith genedlaethol.

This critically acclaimed production features Sheridan Smith in "an unforgettable star turn" (The Times) and a host of iconic musical numbers including 'People', 'I'm The Greatest Star' and 'Don't Rain On My Parade'. A love letter to the theatre, the show has the whole shebang! Following its record-breaking, sell-out run at Menier Chocolate Factory and in London's West End, *Funny Girl* was captured by Digital Theatre live at Manchester's Palace Theatre on the last night of its national tour

Mae hwn yn recordiad o berfformiad byw /  
This is a recording of a live performance



## Exhibition On Screen **Frida Kahlo** 12A

EXHIBITION  
ON SCREEN

